OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2591

## Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013

## RHAN 4

### Gweinyddu a gorfodi

**Awdurdodau cymwys**

**15.** Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 7 o Reoliad 2065/2003.

**Awdurdodau gorfodi**

**16.** Dyletswydd pob awdurdod bwyd yw gweithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn a Rheoliadau'r UE yn ei ardal neu ei ranbarth.

**Troseddu a chosbi**

**17.**—(1) Mae unrhyw berson sy'n torri rheoliad 12 neu 13(1) yn cyflawni trosedd.

(2) Mae unrhyw berson sy'n euog o drosedd o dan reoliad 3, 4, 5, 6 neu 17(1) yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**Condemnio bwyd**

**18.** Os bydd dadansoddydd bwyd yn ardystio bod unrhyw fwyd yn fwyd y mae'n drosedd ei osod ar y farchnad, rhaid trin y bwyd hwnnw at ddibenion adran 9 o'r Ddeddf (y caniateir i fwyd gael ei atafaelu a'i ddifa ar orchymyn ynad heddwch odani) fel bwyd sy'n methu cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

**Cymhwyso amryw o ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990**

**19.**—(1) Mae'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn —

(a) adran 20 (troseddau oherwydd bai person arall);

(b) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy)(**1**) gyda'r addasiad—

(i) bod is-adrannau (2) i (4) yn gymwys o ran trosedd o dan reoliad 3, 4, 5, 6, 7(4) neu 17(1) fel y maent yn gymwys o ran trosedd o dan adran 14 neu 15, a

(ii) y bernir bod y cyfeiriadau yn is-adran (4) at "sale" yn cynnwys cyfeiriadau at "placing on the market";

(**1**) Diwygiwyd adran 21 gan O.S. 2004/3279.

(c) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(d) adran 35(1) (cosbi troseddau)(**2**), i'r graddau y mae'n ymwneud â throseddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan baragraff (3)(b);

(e) adran 35(2) a (3)(**3**), i'r graddau y mae'n ymwneud â throseddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (2)(c);

(f) adran 36 (troseddau gan gyrff corfforaethol); ac

(g) adran 36A (troseddau gan bartneriaethau Albanaidd)(**4**).

(2) Mae'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf i'w ddehongli fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad at Reoliadau'r UE a'r Rheoliadau hyn—

(a) adran 3 (rhagdybio bod bwyd wedi ei fwriadu i bobl ei fwyta) gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriadau at "sold" a "sale" yn cynnwys cyfeiriadau at "placed on the market" a "placing on the market" yn y drefn honno;

(b) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(c) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (b); a

(d) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

(3) Mae adran 34 o'r Ddeddf (terfyn amser ar gyfer erlyniadau) yn gymwys i droseddau o dan y Rheoliadau hyn fel y mae'n gymwys i droseddau y gellir eu cosbi o dan adran 35(2) o'r Ddeddf.

(**2**) Diwygiwyd adran 35(1) gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p.44), Atodlen 26, paragraff 42, o ddyddiad sydd i'w bennu.
(**3**) Diwygiwyd adran 35(3) gan O.S. 2004/3279.
(**4**) Mewnosodwyd adran 36A gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28), Atodlen 5, paragraff 16.